Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

## 28 Tachwedd 2025

**TEITL:** Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2024/25

**AWDUR:** Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael cymeradwyaeth ar gyfer Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y CBC ar gyfer 2024/25 yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru.

### 2. CEISIWYD AM BENDERFYNIAD

2.1. Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y CBC ar gyfer 2024/25 (ar ôl archwiliad allanol). Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Swyddog Cyllid Statudol y CBC (Atodiad 1).

### 3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ar ôl archwiliad allanol) y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024/25. Gwnaed diwygiad i balansau credydwyr ac arian a buddsoddiadau gan fod trafodion a nodwyd fel arian parod wrth gludo ar 31 Mawrth 2025 wedi'u hadnabod fel credydwyr.

3.2. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y CBC, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio'r ffurflen.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol 2024/25 (yn amodol ar archwiliad) i'r CBC ar 18 Gorffennaf 2025, pryd bu craffu priodol.

4.2. Mae'r Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig a gyflwynwyd yma i'r CBC ar 28 Tachwedd 2025 wedi'i archwilio gan Archwilio Cymru.

4.3. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 i'r CBC ar 13 Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

### 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol, oherwydd nad yw ei drosiant yn fwy na £2.5m yn 2024/25, baratoi ffurflen flynyddol a rhaid paratoi hyn yn unol ag arferion priodol fel y nodir gan ddeddfwriaeth.

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Ffurflen Flynyddol Derfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.